## Proses Ad-dalu Taliadau Gwasanaeth

Dylid darllen ein Proses Ad-dalu ar y cyd â Thelerau ac Amodau ein Gwasanaeth Talu, ac mae'n ddarostyngedig i'r telerau hynny, ac (oni ddiffinnir fel arall yma) mae gan unrhyw dermau â phriflythrennau yr un ystyr â'r hyn a nodir yn y datganiad hwnnw.

Yn amodol ar y Rheoliadau bob amser, bydd ein Proses Ad-dalu yn gymwys, lle cytunwyd ar ad-daliad. Mae hyn fel a ganlyn:

1. Lle bydd angen ad-dalu ffi gynllunio neu ffi rheolaeth adeiladu a dalwyd drwy'r gwasanaeth talu, dim ond yn dilyn cadarnhad ffurfiol gan yr awdurdod cynllunio lleol ("ACLl") neu'r corff rheolaeth adeiladu ("CRhA"), yn y drefn honno, y gallwn brosesu hyn.

2. Unwaith y bydd ACLl neu CRhA yn cytuno bod ad-daliad yn ddyledus, rhaid iddo ein hysbysu drwy e-bostio refunds@planningportal.co.uk gan gadarnhau gwerth yr ad-daliad ynghyd â'r rheswm. Dylech fod yn ymwybodol:
    - 2.1. Os nad oedd y rheswm dros yr ad-daliad o ganlyniad i fai arnom ni am gyflawni ein Gwasanaethau, ni chaiff y Tâl Gwasanaeth perthnasol ei ad-dalu.
    - 2.2. Mae'n rhaid i'r ACLl neu'r CRhA ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol fel y gall ein tîm ad-daliadau nodi'r cais cywir, gan gynnwys rhif cyfeirnod y Planning Portal, pryd y gwnaed y taliad a'r swm i'w ad-dalu.

3. Unwaith y bydd yr ACLl neu'r CRhA yn cael y cais am ad-daliad, byddwn yn prosesu'r ad-daliad yn ôl i chi (y sawl a dalodd y ffi) o fewn 14 diwrnod busnes. Caiff ad-daliadau eu gwneud drwy drosglwyddiad banc i'r cyfrif neu'r cerdyn talu a ddefnyddiwyd i wneud y taliad. Os ceir cais am ad-daliad fwy na 2 flynedd ar ôl i daliad gael ei wneud drwy drosglwyddiad banc, mae'n bosibl y bydd angen i ni gysylltu â chi ynghylch yr ad-daliad er mwyn cadarnhau neu gael manylion eraill.

4. Os bydd ACLl neu CRhA yn gwrthod cais am ad-daliad ond bod hawl gennych i ad-daliad o'r Tâl Gwasanaeth, byddwn yn eich ad-dalu o fewn 14 diwrnod busnes i'r adeg y byddwn yn cael cadarnhad gan yr ACLl neu'r CRhA perthnasol nad yw'n cynnig ad-daliad o'r ffi berthnasol am wneud cais.

5. Byddwn yn eich hysbysu chi a'r ACLl neu'r CRhA pan fydd yr ad-daliad wedi'i weithredu.

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddaru'r Broses Ad-dalu hon o bryd i'w gilydd. Os bydd unrhyw deler yn ein Proses Ad-dalu yn gwrthdaro ag unrhyw hawliau a roddir i chi o dan y Rheoliadau, yna eich hawliau o dan y Rheoliadau fydd drechaf fel bod ein Proses Ad-dalu yn cydymffurfio â Rheoliadau o'r fath.

### Manylion Cyswllt

Tîm Ad-daliadau'r Planning Portal: refunds@planningportal.co.uk